

# Meddwl am Drefnu Digwyddiad Cymunedol?

## At a glance

**Gall cynghorau cymuned a thref yng Nghymru chwarae rôl allweddol yn cefnogi pobl leol drwy'r argyfwng costau byw trwy gynnal prosiectau a digwyddiadau cymunedol. Mae cynghorau mewn sefyllfa dda i ddeall anghenion lleol a chynnig cefnogaeth ymarferol, cryfhau clymau cymunedol, a lleddfu pwysau ariannol mewn gwahanol ffyrdd.**

### Beth allwch chi drefnu?

- Digwyddiadau bwyd rhad ac am ddim neu gost isel megis clybiau cinio a gweithdai bwyd lle y gall pobl ddod at ei gilydd i fwynhau bwyd maethlon am ddim neu am dâl bychan.
- Partneru gyda mudiadau 3ydd sector ac asiantaethau cynghori i gynnig cyngor a chymorth ariannol; gweithdai effeithlonrwydd ynni a digwyddiadau iechyd meddwl a llesiant.
- Agor neuaddau lleol a chanolfannau cymunedol yn "hybiau cynnes" yn ystod misoedd oerach, a chynnig lle i bobl gadw'n gynnes, cymdeithasu ac arbed ar gostau cynhesu'r cartref.
- Gall hybiau rhannu adnoddau lle y gall pobl fenthyg offer, cyfnewid llyfrau neu deganau, gwisg ysgol a rheiliau dillad oll leihau costau a lleddfu straen ariannol.
- Trefnu digwyddiadau cymunedol o gwmpas gwyliau gan roi'r ffocws ar weithgareddau hwyl am ddim neu gost isel, a rhoi rhoddion i deuluoedd mewn angen.
- Cynnal cynulliadau cymunedol megis clybiau ffilm, boreau coffi, teithiau cerdded llesiant sydd oll yn helpu creu cysylltiadau cymdeithasol a lleihau unigrwydd.

## Heriau

Mae trefnu prosiect neu ddigwyddiad cymunedol yn gallu teimlo'n llethol oherwydd y gwaith papur a phryderon am faterion megis iechyd a diogelwch, sicrhau cyllid, rheoli cyllidebau a marchnata.

Mae cynnig syniadau blaengar neu foderneiddio arferion traddodiadol yn gallu wynebu gwrthwynebiad. Gall rhwystrau gynnwys cymunedau anghysbell 'anodd eu cyrraedd', argaeledd pobl cludiant i ddigwyddiadau, difaterwch, pa mor hygyrch yw lleoliadau a chyfyngiadau cyllidebol.

Mae gan lawer o gynghorau llai gyllidebau tynn sy'n deillio'n bennaf o'u praeseptau, ac er bod cyllid ar gael trwy grantiau mae'r broses gwneud cais yn aml yn gymhleth a chystadleuol.

£ Gallwch chwilio am grantiau a chyfleoedd cyllidol yn Cyllido Cymru

## Pethau i'w Cofio

**1 Pam ydych chi ei wneud?**
Penderfynwch beth yw prif bwrpas y digwyddiad neu brosiect a gosodwch nodau clir ar yr hyn mae'r cyngor yn gobeithio ei gyflawni. Byddwch yn glir pam rydych yn cynnal y digwyddiad, a sut fyddwch yn mesur ei lwyddiant. Beth? Pam? Pwy? Pryd? Ble?

**2 Gwnewch gynllun prosiect**
Dechreuwch gyda thaenlen, rhestrwch eich tasgau, ychwanegwch gyfnodau amser a rhannwch y swyddi hynny. Gallech ddechrau gyda'r digwyddiad a gweithiwch yn ôl i helpu penderfynu beth sydd angen ei wneud – a chofiwch gynnwys gorffen y digwyddiad a thacluso wedyn.

**3 Gwiriwch y gofynion cyfreithiol**
Ymchwiliwch a threfnwch unrhyw drwyddedau angenrheidiol ar gyfer y digwyddiad, megis rhai ar gyfer gwerthu alcohol, cerddoriaeth, neu gau ffyrdd. Meddyliwch am yswiriant atebolrwydd i ddiogelu rhag risgiau posib a chynhaliwch asesiad risg ar gyfer y prosiect a gweithgareddau cysylltiedig.

**4 Trefnwch eich cyllideb**
Rhestrwch yr holl dreuliau posib, gan gynnwys y lleoliad, marchnata, trwyddedau, adloniant, a lluniaeth. Nodwch ffynonellau cyllid posib, megis trefniadau nawdd, gwerthiant tocynnau, neu grantiau. Neilltuwch gyfran o'r gyllideb ar gyfer costau annisgwyl.

**5 Marchnata digwyddiadau**
Defnyddiwch gymysgedd o ddulliau i gyrraedd eich cynulleidfa darged, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, y wasg leol, taflenni a lledu'r gair ar lafar. Crëwch thema neu frand cyson ar gyfer y digwyddiad. Cysylltwch â mudiadau a busnesau lleol eraill i helpu hyrwyddo eich digwyddiad neu brosiect.

## Pam ddylech chi ei wneud?

Gall cynnal digwyddiadau sydd wedi'u cynllunio'n benodol i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw gynnig nifer o fuddion i gymunedau lleol. Mae digwyddiadau cymunedol yn dod â phobl at ei gilydd i greu atgofion cofiadwy, gan gryfhau eu cysylltiad â'r lle maen nhw'n byw ynddo. Gall digwyddiadau ddathlu eu diwylliant, traddodiadau a hunaniaeth gymunedol; annog pobl i gymryd rhan mewn materion lleol; darparu adnoddau, cefnogaeth a gwybodaeth sydd o fudd uniongyrchol i bobl ac sy'n cyfrannu at lesiant a hapusrwydd cyffredinol pobl leol.

# Gwybodaeth Ddefnyddiol

Cynhaliwch asesiad risg cynhwysfawr er mwyn adnabod a lleddfu rhag materion posib allai godi yn ystod y digwyddiad. Dylai'r broses hon gynnwys gwerthuso peryglon diogelwch, cynllunio ar gyfer argyfyngau, sicrhau y cydymffurfir â rheoliadau, a pharatoi cynlluniau wrth gefn ar gyfer wynebu unrhyw heriau na ragwelwyd mohonynt.

Asesiad Risg Enghreifftiol

Digwyddiadau Cymru – Canllaw Arfer Gorau

Organising a voluntary event: a "can do" guide -GOV UK

Ffurflenni Cynllunio Cymunedol

Canllaw'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch i gynllunio digwyddiadau

## Powers

- Grym i ddarparu adeiladau i'w defnyddio gan glybiau neu gymdeithasau a chanddynt amcanion athletaidd, cymdeithasol neu hamdden – Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a 19
- Grym i ddarparu ystod eang o gyfleusterau hamdden - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a 19
- Grym i annog ymwelwyr a darparu cyfleusterau cynadledda ac eraill – Deddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 144)
- Grym i Ddarparu Marchnadoedd (Deddf Fwyd 1984
- Grym i Ddarparu Adloniant (Deddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 145)

**Gall grymoedd a chyfiawnhadau wahaniaethu, a dylai cynghorau ystyried eu hamgylchiadau penodol nhw. Er mwyn cael cyngor ac arweiniad, efallai yr hoffai cynghorau gysylltu â'u Swyddog Datblygu Un Llais Cymru.**

**gweinydd@unllaiscymru.cymru**

# Gwasanaethau & Phrosiectau Ar Hyn o Bryd

Mae Gwener y Gymuned **Cyngor Tref Cwmaman** yn cynnig hwb canolog sy'n galluogi pobl leol i gael gafael ar wasanaethau

Gwelodd **Cyngor Tref Y Fenni** arddangosiad digamsyniol o ysbryd ac undod cymunedol yn eu digwyddiadau Sul y Cofio

Dathlodd **Cyngor Tref Y Barri** Ddydd Gŵyl Ddewi gyda diwrnod o weithgareddau a dathliadau rhad ac am ddim neu gost isel

Mae **Cyngor Cymuned Llannon** yn trefnu Clwb Cinio a Chlonc ar gyfer pobl 50+ sy'n byw yn eu hardal. Darperir cludiant cymunedol

Mae digwyddiad blynyddol cynnau Goleuadau Nadolig **Cyngor Tref Caerfyrddin** yn cydweithio gyda sefydliadau a busnesau yn y dref i greu Gorsafoedd Elf lle y gall teuluoedd fwynhau gweithgareddau rhad ac am ddim.

Mae Cynghorau ledled Cymru fel **Cyngor Cymuned Cwarter Bach** yn cynnal gweithdai a gweithgareddau dros yr Haf. Mae'r rhain yn cynnwys celf, cerddoriaeth, clwb ffilm, chwaraeon, clwb brecwast a dyddiau hwyl.

Mae menter Hybiau Cynnes **Cyngor Tref Prestatyn** yn cynnig seibiant, ymgysylltu cymdeithasol, gweithgareddau, lluniaeth, a gwasanaethau cynghori i bobl leol yn ystod y dydd

Gwyliwch ein Hastudiaeth Enghreifftiol Un Llais Cymru gyda Chyngor Tref Blaenafon yma

# Gwybodaeth am Gyllid & Chyfleoedd Posib

Sefydliad Cymunedol Cymru

Gwobrau i Bawb y Loteri Genedlaethol

Trusthouse Charitable Foundation

**Mae Un Llais Cymru yn cynnig modiwl hyfforddiant ar 'Gwneud ceisiadau grant effeithiol'**

## Eisiau Gwybod Mwy?

**Er mwyn cael gwybod mwy am brosiect Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru cysylltwch â'r tîm yn:**

CoLC@onevoicewales.wales

https://bit.ly/3KYHftK